Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD IAU, 7 GORFFENNAF 2022**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD AML-LEOLIAD O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL** AM **10.00 YB** AR **DYDD MERCHER, 13 GORFFENNAF, 2022** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

**GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-**
**HTTPS://CARMARTHENSHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Janine Owen** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224030** |
| **E-bost:** | **JanineOwen@sirgar.gov.uk** |


Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A

**1.** **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2.** **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

**3.** **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

**4.** **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y 22 MEHEFIN 2022** 3 - 6

**5.** **RECRIWTIO I SWYDD CYFARWYDDWR LLE (Penodiad Parhaol)** 7 - 20

**6.** **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

**6 .1** **CWESTIWN GAN ELLEN HUMPHREY I'R CYNGHORYDD A. LENNY, AELOD CABINET DROS ADNODDAU**

"Mae perchnogi ail gartrefi yn fater o bwys i gymunedau lleol a phrynwyr tro cyntaf lleol yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin. A fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu'r premiwm treth gyngor ar ail gartrefi o 300% o fis Ebrill 2023?"

**7.** **CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

**8.** **COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

**8 .1** **PWYLLGOR CYNLLUNIO - 23 MEHEFIN 2022**

**8 .2** **PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED - 28 MEHEFIN 2022**

# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 22 MEHEFIN 2022

**PRESENNOL** Councillor R.E. Evans

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| K.V. Broom | P. Cooper | M.D. Cranham | B. Davies |
| L. Davies | S.L. Davies | L.D. Evans | N. Evans |
| J.P. Hart | P.M. Hughes | R. James | D. Jones |
| K. Madge | M. Palfreman | D. Price | S.L. Rees |
| B.A.L. Roberts | E. Skinner | E.G. Thomas | J. Tremlett |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | L.R. Bowen | J.M. Charles | D.M. Cundy |
| S.A. Curry | A. Davies | C.A. Davies | W.R.A. Davies |
| T.A.J. Davies | C. Davies | G. Davies | H.L. Davies |
| K. Davies | T. Davies | M. Donoghue | A. Evans |
| D.C. Evans | H.A.L. Evans | W.T. Evans | S. Godfrey-Coles |
| A.D. Harries | T.M. Higgins | J.K. Howell | P. Hughes-Griffiths |
| J.D. James | M. James | J.P. Jenkins | G.H. John |
| B.W. Jones | A.C. Jones | H. Jones | A. Lenny |
| M.J.A. Lewis | A. Leyshon | A.G. Morgan | D. Owen |
| B.D.J. Phillips | E. Rees | E.M.J.G. Schiavone | J. Seward |
| H.B. Shepardson | R. Sparks | D. Thomas | G.B. Thomas |
| M. Thomas | F. Walters | P.T. Warlow | J. Williams |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.50 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L.M Davies, G.R. Jones, N. Lewis ac A. Vaughan-Owen.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| R. E. Evans | 9.1 - Mae'r Grŵp Llafur wedi enwebu'r Cynghorydd Rob Evans i gymryd ei sedd wag ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. | Buddiant Personol – wedi'i enwebu i'w benodi. |

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad diffuant i deulu'r cyn-Gynghorydd Penny Edwards. Bu farw Penny ddydd Sul 22 Mai ar ôl cyfnod o salwch. Roedd Penny yn cynrychioli Ward Hengoed tan yr etholiadau ym mis Mai.

- Estynnwyd cydymdeimlad hefyd i deulu'r cyn-Gynghorydd John Edwards a fu'n cynrychioli Ward Saron tan yr etholiadau llywodraeth leol yn 2012.

- Talodd y Cadeirydd deyrnged i Phil Bennett a fu farw ar 12 Mehefin. Roedd wedi ennill 29 cap dros Gymru rhwng 1969 a 1978 ac wedi chwarae 413 o gemau i'r Scarlets. Dywedwyd y byddai gwasanaeth coffa yn cael ei gynnal ym Mharc y Scarlets ddydd Gwener 24 Mehefin, gan ddechrau am 11am, ac y byddai gwasanaeth cyhoeddus wedi hynny yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Felin-foel, am 1pm.

- Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod wedi cael y pleser o fynychu derbyniad yn y Senedd yn ddiweddar i nodi dechrau Wythnos y Lluoedd Arfog 2022. Roedd hefyd wedi mynychu digwyddiad beicio Taith Merched Prydain.

- Estynnodd y Cynghorydd Alun Lenny, gyda chaniatâd y Cadeirydd, ei longyfarchiadau i Joe Allen a thîm pêl-droed cenedlaethol Cymru ar eu llwyddiant wrth gyrraedd Cwpan y Byd yn Qatar. Hefyd, llongyfarchwyd Josh Sheehan (Bolton Wanderers) sydd wedi cael tri chap dros Gymru ac sydd ar hyn o bryd yn chwaraewr ar yr ymylon oherwydd anaf.

- Estynnodd y Cynghorydd Edward Thomas, gyda chaniatâd y Cadeirydd, ei longyfarchiadau i Ysgol Gynradd Llandeilo a ddewiswyd i gynrychioli Cymru yng nghyngerdd y Jiwbilî yn y Royal Albert Hall. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Glwb Rygbi Llandeilo, sef un o sylfaenwyr Undeb Rygbi Cymru, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 150 oed eleni. Aeth aelodau'r clwb ar daith feicio 304 milltir i gefnogi Apêl Arch Noa a chanser y prostad.

Diolchodd y Cynghorydd Thomas hefyd i blant Llandeilo am gymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych.

- Amlinellodd yr Arweinydd, gyda chaniatâd y Cadeirydd, yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan breswylwyr Sir Gaerfyrddin a'r Awdurdod i roi cymorth i ffoaduriaid o Wcráin. Dywedodd yr Arweinydd fod 80 o noddwyr o dan y cynllun Cartrefi i Wcráin. Mae dros 30 o blant eisoes wedi dechrau yn yr ysgol. Mae rhai teuluoedd o Wcráin hefyd wedi cael llety tymor byr ac mae'r Awdurdod yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a chymorth. I gloi, dywedodd yr Arweinydd wrth yr holl deuluoedd o Wcráin sydd yma fod Sir Gaerfyrddin yn sefyll gyda nhw, wrth eu hochr nhw, ac y byddem yn gwneud beth bynnag y gellid ei wneud i'w cefnogi.

  Soniodd yr Arweinydd am yr arolwg preswylwyr a fyddai'n mynd yn fyw cyn bo hir. Dywedodd yr Arweinydd fod yr Awdurdod yn ceisio barn preswylwyr ar bob maes perfformiad er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol. Byddai'r canfyddiadau pwysig yn cael eu rhannu ar draws pob lefel o'r sefydliad er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Anogodd yr Arweinydd yr holl breswylwyr i fynd ar-lein i gwblhau'r arolwg.

  Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod y cyfarfod cyntaf o Arweinwyr y Grwpiau wedi'i gynnal i drafod gweithio mewn partneriaeth a'i fod yn ddiolchgar am natur gadarnhaol y cyfarfod.

  I gloi, nododd yr Arweinydd fod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb. Roedd arbenigwyr wedi rhagweld y gallai cartref yng Nghymru weld cynnydd o £600 mewn costau byw eleni. Dywedodd nad oedd ateb hawdd i fynd i'r afael â hyn, ond roedd camau y gallai San Steffan a Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn hapus i weithio gydag awdurdodau eraill i lobïo San Steffan ac i weithio gyda Llywodraeth Cymru.

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y:-

### 4.1. 2AIL MAWRTH, 2022

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022 yn gofnod cywir.**

### 4.2. 9FED MAWRTH, 2022

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2022 yn gofnod cywir, yn amodol ar gynnwys y Cynghorydd J.P. Jenkins yn y rhestr o'r rheiny a oedd yn bresennol.**

### 4.3. 25AIN MAI, 2022

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022 yn gofnod cywir.**

## 5. PENODI AELOD CYMUNEDOL O'R PWYLLGOR I'R PWYLLGOR SAFONAU.

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn argymell bod y Cynghorydd Philip Rogers o Gyngor Tref Sanclêr yn cael ei ailbenodi'n Aelod Cymunedol y Pwyllgor Safonau tan ddiwedd ei gyfnod presennol yn ei swydd fel Cynghorydd Tref. Mae rheoliad 4 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 yn gofyn bod gan Bwyllgor Safonau Aelod Pwyllgor Cymunedol.

**PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Philip Rogers yn cael ei ailbenodi'n Aelod Cymunedol y Pwyllgor Safonau tan ddiwedd ei gyfnod presennol yn ei swydd fel Cynghorydd Tref.**

## 6. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR:-

### 6.1. 14EG MAWRTH 2022

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2022.**

### 6.2. 28AIN MAWRTH 2022

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2022.**

### 6.3. 11EG EBRILL 2022

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2022.**

## 7. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 8. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan aelodau.

## 9. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU

### 9.1. MAE'R GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD ROB EVANS I GYMRYD SEDD WAG AR WASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo enwebiad y Cynghorydd R.E Evans fel un o gynrychiolwyr y Grŵp Llafur ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

_________________________ ___________________

**CHAIR** **DATE**

**CYNGOR SIR**

**13 GORFFENNAF 2022**

| **RECRIWTIO I SWYDD CYFARWYDDWR LLE<br>(Penodiad parhaol)** | | |
|---|---|---|
| **Yr Argymhellion / Penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br><br>Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r Proffil Swydd a Manyldeb y Person yn ogystal â'r hysbyseb swydd ar gyfer y swydd Cyfarwyddwr Lle | | |
| **Rhesymau:**<br><br>Er mwyn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor, ac i gydymffurfio â diwygiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, fel y mae wedi'i nodi yn yr adroddiad cryno. | | |
| **Ymgynghorwyd â'r pwyllgor craffu perthnasol:** **Amherthnasol**<br>**Pwyllgor craffu a'r dyddiad:** **Amherthnasol** | | |
| **Angen i'r Cabinet gwneud penderfyniad:** **Na**<br>**Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad:** **Oes** | | |
| **Aelodau'r Cabinet sy'n gyfrifol am y Portffolio:**<br><br>Y Cyng. Edward Thomas<br>Y Cyng. Aled Vaughan-Owen<br>Y Cyng. Ann Davies | | |
| **Y Gyfarwyddiaeth:**<br>Prif Weithredwr<br><br>**Awdur yr Adroddiad:**<br>Paul Thomas | **Swydd:**<br><br><br>Prif Weithredwr Cynorthwyol ( Rheoli Pobl) | **Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau Ebost:**<br><br><br>01267 246123<br>PRThomas@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY

## COUNTY COUNCIL
## 13TH JULY 2022

## RECRUITMENT TO THE POST OF DIRECTOR OF PLACE (Permanent appointment)

**1. Background**

County Council at its meeting on the 13th October 2021 endorsed the decision to introduce temporary arrangements to fulfil the duties of the Director's responsibilities following the resignation of the previous Director of Environment who left the Authority on the 31st December 2021. These arrangements have worked very successfully, however, the Standing Orders Regulations require that such temporary arrangements are in place for no longer than twelve months. This report to put permanent arrangements in place therefore requires the endorsement of the County Council before proceeding with the recruitment process.

The post of Director of Place is a Chief Officer post and any appointment to such a post where the salary is £100,000 or more, is governed by the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) (Amendment) Regulations 2014. This is reflected in the Authority's Pay Policy for 2022/2023. The Regulations require that a "relevant body" ie the County Council:

"draw up a statement specifying—(i) the duties of the officer concerned, and

(ii) any qualifications or qualities to be sought in the person to be appointed;

(b) make arrangements for the post to be <u>publicly advertised</u> in such a way as is likely to bring it to the attention of persons who are qualified to apply for it; and

(c) make arrangements for a copy of the statement mentioned in paragraph (a) to be sent to any person on request."

In accordance with the Standing Orders Regulation, this report includes the information that requires the endorsement of County Council.

**2. Recommendations**

In accordance with the Standing Orders Regulations, it is recommended that County Council approve:

2.1 the enclosed Job Profile and Person Specification (Appendix A)
2.2 the enclosed job advert (Appendix B)

| | |
|---|---|
| **Report attached?** | **No, however the following documents are attached as appendices:**<br>Appendix A - Job Profile and Personal Specification for Director of Place.<br>Appendix B - Job Advert for Director of Place. |

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.**

**Signed: Paul Thomas, Assistant Chief Executive (People Management & Performance)**

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **YES** | **YES** | **YES** | **NONE** | **YES** | **YES** | **NONE** |

**1. Policy, Crime & Disorder and Equalities –** In accordance with the Council's Constitution and Policy Framework.

**2. Legal –** As above, and also in accordance with the revisions to the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) (Amendment) Regulations 2014.

**3. Finance**.

The salary for the Director of Environment is in accordance with the County Council's agreed 22/23 Pay Policy Statement and is within the current budgeted salary. Any net costs of the recruitment process and interim arrangements will be met from departmental reserves.

**5. Risk Management –** Failure to make provision to discharge the functions contained within this departmental portfolio, efficiently and effectively would place the authority at risk.

**6. Staffing Implications –** In accordance with the Council's Constitution and Policy Framework.

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:**<br><br>**Signed: Paul Thomas, Assistant Chief Executive (People Management & Performance)** |
| **1.County Council**<br>**2.Corporate Management Team**<br>**3.Scrutiny Committee –** N/A<br>**4.Local Member(s) –** N/A<br>**5.Community / Town Council –** N/A<br>**6.Relevant Partners –** N/A<br>**7.Staff Side Representatives and other Organisations –** N/A |
| **Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**<br>**List of Background Papers used in the preparation of this report:**<br><br>1. Local Authorities (Standing Orders) (Wales) (Amendment) Regulations 2014.<br>2. Pay Policy Statement 2022/23 |

| | |
|---|---|
| **CABINET MEMBER PORTFOLIO HOLDERS AWARE/CONSULTED?** | **YES** |

# Proffil Swydd/Job Profile

## Teitl y Swydd – Cyfarwyddwr Lle

## Post Title – Director of Place

| | |
|---|---|
| Adran | Amgylchedd |
| Department | Environment |

| | |
|---|---|
| Is-Adran/Adain | |
| Division/Section | |

| | |
|---|---|
| Gradd/Grade | Prif Swyddog / Chief Officer |

| | |
|---|---|
| Rhif y Swydd/Post Number | 002653 |

| | |
|---|---|
| Paratowyd Gan/Prepared By | Paul R Thomas |

| | |
|---|---|
| Dyddiad/Date | Mehefin/ June 2022 |

## Prif Ddiben y Swydd

- Cefnogi a chynghori'r Prif Weithredwr ac Aelodau Etholedig o ran y gwaith cyffredinol o reoli'r Cyngor yn strategol.
- Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, gan fod yn aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, drwy arwain ar y materion a glustnodwyd fel rhan o bortffolio corfforaethol y swydd.
- Arwain y gwaith o gyflawni blaenoriaethau Corfforaethol penodol a rhai Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd o fewn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, gan gynnwys Amcanion Llesiant y Cyngor a sicrhau bod y camau a gymerir yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.
- Arwain ar ymateb yr Awdurdod i newid yn yr hinsawdd a charbon sero-net, a sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau.
- Sicrhau diwylliant o reoli perfformiad, gwella gwasanaethau'n barhaus, gwerthuso ac adolygu perfformiad ledled Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Arwain a rheoli portffolio'r Amgylchedd sy'n cynnwys Lle a Chynaliadwyedd, Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff, Trafnidiaeth, Priffyrdd ac Eiddo, gan sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn gyson.
- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am arwain a phennu, monitro a rheoli cyllidebau ac adnoddau y gwahanol wasanaethau sy'n rhan o'r gyfarwyddiaeth.
- Arwain a rhoi cyfarwyddyd clir i holl staff y gyfarwyddiaeth.

## Prif dasgau/cyfrifoldebau

- Darparu arweinyddiaeth glir a gweladwy a chyfeiriad strategol sy'n ysbrydoli gweithio mewn tîm ac yn sicrhau lefelau uchel o ymrwymiad ymhlith rheolwyr a gweithwyr i ddarparu gwasanaethau eithriadol, a ategir gan berthynas waith gadarnhaol gyda'r holl Undebau Llafur.
- Bod yn ben-ymgynghorydd i'r Prif Weithredwr ac i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y prif faterion a strategaethau sy'n berthnasol i amrywiol bortffolios gwasanaeth y gyfarwyddiaeth, gan sicrhau bod cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol iddynt er mwyn gofalu y ceir y canlyniadau gorau posibl i ddefnyddwyr y gwasanaethau.
- Datblygu diwylliant sy'n annog gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â'r rheiny yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau y gwneir y gorau o bob cyfle a hynny er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i'r Cyngor ac i drigolion Sir Gaerfyrddin.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- Hybu a meithrin diwylliant trefniadaethol y mae heriau adeiladol, arloesi ac atebion creadigol yn rhan arferol ohono, gan gyfrannu'n gadarnhaol at enw da a delwedd y Cyngor o fod yn un o'r awdurdodau lleol sy'n cyrraedd y brig ac sy'n gyflogwr da, a hyrwyddo hynny'n flaenweithgar.

- Llwyr gefnogi'r agenda gydweithio a chwarae rhan allweddol yn rhanbarthol drwy weithio mewn partneriaeth i gyflawni gwelliannau gweddnewidiol.

- Sicrhau y darperir gwasanaethau o'r safon orau sy'n bosibl, ac yr ymgysylltir ac yr ymgynghorir yn llwyr â'n cwsmeriaid ynghylch darparu gwasanaethau.

- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod craffu parhaus ar berfformiad a monitro parhaus ohono er mwyn darparu'r canlyniadau gorau sy'n bosibl i ddefnyddwyr gwasanaethau, o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

- Dylanwadu a chyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r agenda 'Trawsnewid i wneud cynnydd' (TIC) – sy'n berthnasol i'r Awdurdod cyfan, er mwyn i'r arloesi o ran datblygu a darparu gwasanaethau gynyddu bodlonrwydd y cwsmeriaid, a lleihau costau.

- Hybu cyfle cyfartal wrth ddarparu gwasanaethau ac o ran arferion cyflogaeth er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau moesol a chyfreithiol, gan gynnwys ei rwymedigaethau Iechyd a Diogelwch.

- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb arweiniol dros brosiectau corfforaethol penodol neu unrhyw ddyletswyddau eraill a bennir gan y Prif Weithredwr neu sy'n gymesur â'r swydd.

- Sicrhau bod fframweithiau rheoli perfformiad effeithiol ar waith yn yr adran a bod y rhain yn hyrwyddo gwella gwasanaethau yn barhaus.

- Bod yn arweinydd amlwg gan hyrwyddo safonau uchel, heriau ac amgylchedd gwaith cadarnhaol ar gyfer y staff.

- Arwain datblygiad y gwasanaeth a chynllunio gweithlu'r adran.

## Yn gyfrifol am staff/offer

Tua 1,257 o staff, mewn 181 o sefydliadau gan gynnwys ysgolion. Mae'r gyllideb refeniw flynyddol oddeutu £46.1 miliwn ac mae'r gyllideb gyfalaf oddeutu £11.5 miliwn.

## Yn atebol i

Prif Weithredwr


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Meini Prawf | Hanfodol |
|---|---|
| **Cymwysterau /**<br><br>**Hyfforddiant galwedigaethol /**<br><br>**Aelodaeth Broffesiynol** | Yn meddu ar radd neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol neu brofiad cyfatebol.<br><br>Cymhwyster rheoli perthnasol neu ddatblygiad proffesiynol parhaus pendant. |
| **Y sgiliau sy'n ymwneud â'r swydd /**<br><br>**Galluoedd** | **Penderfynu ynghylch Camau a'u Rhoi ar Waith**<br><br>Gwneud penderfyniadau cyflym a chlir a allai olygu gwneud dewisiadau anodd neu gymryd risgiau ystyriol; Cymryd cyfrifoldeb dros gamau gweithredu, prosiectau a phobl; Bod yn flaengar ac yn hyderus a gweithio heb gyfarwyddyd; Ysgogi a chreu gweithgaredd.<br><br>**Arwain a Goruchwylio**<br><br>Rhoi arweiniad clir i eraill; Pennu safonau ymddygiad priodol; Dirprwyo gwaith yn briodol ac yn deg; Ysgogi a grymuso eraill; Rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu a chael hyfforddiant personol; Recriwtio staff o'r radd flaenaf.<br><br>**Glynu wrth Egwyddorion a Gwerthoedd**<br><br>Cynnal safonau moesol a gwerthoedd; Arddangos gonestrwydd; Hyrwyddo ac amddiffyn cyfleoedd cyfartal, adeiladu timoedd amrywiol; Hybu cyfrifoldeb trefniadol ac unigol tuag at y gymuned a'r amgylchedd.<br><br>**Darbwyllo a Dylanwadu**<br><br>Gwneud argraff bersonol gref ar eraill; Ennill dealltwriaeth glir ac ymrwymiad gan eraill drwy ddarbwyllo, argyhoeddi a chyd-drafod; Hybu syniadau ar eich rhan eich hun neu ar ran eraill; Defnyddio prosesau gwleidyddol yn effeithiol i ddylanwadu ar eraill ac i'w darbwyllo<br><br>**Cyflwyno a Chyfathrebu**<br><br>Siarad yn glir ac yn rhugl; Mynegi barn, gwybodaeth a phwyntiau allweddol dadl yn glir; Gwneud cyflwyniadau a siarad yn gyhoeddus yn fedrus ac yn hyderus; Ymateb yn gyflym i anghenion cynulleidfa ac i'w hymatebion a'u hadborth; Cyfleu hygrededd<br><br>**Llunio Strategaethau a Chysyniadau**<br><br>Gweithio'n strategol i wireddu amcanion trefniadol; Pennu a datblygu strategaethau; Clustnodi a threfnu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni tasgau; Monitro perfformiad yn unol â dyddiadau cau a cherrig milltir<br><br>**Addasu ac Ymateb i Newid**<br><br>Addasu i amgylchiadau newidiol; Derbyn syniadau newydd a mentrau ar gyfer newid; Addasu arddull ryngbersonol yn ôl yr hyn sy'n addas i wahanol bobl neu sefyllfaoedd; Dangos parch a sensitifrwydd tuag at wahaniaethau diwylliannol a chrefyddol; Ymdrin ag amwysedd gan wneud defnydd cadarnhaol o'r cyfleoedd y mae hynny'n ei gyflwyno. |

| | |
|---|---|
| | **Dadansoddi**<br><br>Dadansoddi data rhifyddol, data geiriol a phob ffynhonnell wybodaeth arall. Rhannu gwybodaeth yn gydrannau, patrymau a pherthnasoedd. Ymchwilio i gael rhagor o wybodaeth neu well dealltwriaeth o broblem, gwneud penderfyniadau rhesymol o'r wybodaeth a'r dadansoddi sydd ar gael. Cynnig atebion ymarferol i amrywiaeth o broblemau. Dangos dealltwriaeth fod un mater yn gallu bod yn rhan o system lawer mwy. |
| **Gwybodaeth** | Dangos gwybodaeth bendant am bolisi, strategaeth a darpariaeth sy'n ymwneud â phortffolio Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac arwain timau i gyflwyno rhaglenni a mentrau gyda dawn i weithio mewn partneriaeth.<br><br>Llwyr ddeall cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y Cyngor er mwyn datblygu a gweithredu strategaethau, polisïau a safonau perthnasol.<br><br>Dealltwriaeth glir o agenda'r Llywodraeth ar gyfer Llywodraeth Leol, ar lefel Gymreig a Phrydeinig. |
| **Profiad** | Profiad llwyddiannus o reolaeth strategol ar lefel uwch mewn sefydliad mawr.<br><br>Profiad o ran datblygu a gweithredu strategaethau gwasanaeth a chorfforaethol sy'n darparu gwelliannau amlwg.<br><br>Profiad o gyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol drwy ddefnyddio a hyrwyddo TGCh.<br><br>Tystiolaeth o arwain newid sylweddol mewn trefniadaeth a gwasanaethau a rheoli'n llwyddiannus y goblygiadau o ran rheoli pobl. |
| **Rhinweddau personol** | Meddu ar gymhelliant cryf a'r gallu i gymell eraill mewn amgylchedd tîm.<br><br>Rheoli materion sensitif a gwleidyddol yn hyderus gan weithio'n ddiplomataidd i gyflawni canlyniadau positif ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Y gallu i ennyn ymddiriedaeth, didwylledd, a chydraddoldeb drwy ryngweithio â phobl o amrywiol gefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, ac addysgol.<br><br>Arddangos sgiliau rhyngbersonol gwych sy'n eich galluogi i feithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda rhanddeiliaid/partneriaid perthnasol, gan gynnwys Undebau Llafur.<br><br>Meddu ar feddylfryd strategol tuag at lunio gwasanaethau sy'n rhoi sylw i flaenoriaethau corfforaethol ac sy'n integreiddio â gweithgareddau cyflenwol ar draws y Cyngor ac yn gweddu iddynt. |

| | |
|---|---|
| | Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth ariannol gan ddefnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i sicrhau rheolaeth ac atebolrwydd effeithlon o ran y gyllideb.<br><br>Meithrin a chynnal cysylltiadau gwaith cydweithredol fel aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol gan gyfrannu at ddysgu ac at reoli newid meddylfryd ar lefel uwch a lefel strategol. |
| | **Dymunol** |
| | Dim |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Sgiliau Iaith / Cyfathrebu<br>Pa lefel ydych chi? | Sgiliau Siarad | Sgiliau Ysgrifennu |
|---|---|---|
| Cymraeg | 2 | 2 |
| Saesneg | 5 | 5 |
| Arall (nodwch) | | |

| GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) |
|---|
| Gall fod gwiriadau DBS yn ofynnol ar gyfer rhai swyddi lle bydd angen gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Mae'r canlynol yn ofynnol ar gyfer y swydd hon: |

| | |
|---|---|
| DIM ANGEN GWIRIAD DBS | ☒ |
| **Adran A – y math o ddatgeliad** | |
| DATGELIAD SAFONOL | ☐ |
| DATGELIAD MANWL | ☐ |
| DATGELIAD MANWL GAN WIRIO'R RHESTR WAHARDD | ☐ |
| **Adran B – y math o weithlu** | |
| Y GWEITHLU PLANT | ☐ |
| Y GWEITHLU OEDOLION | ☐ |
| Y GWEITHLU PLANT AC OEDOLION | ☐ |
| GWEITHLU ARALL | ☐ |

| Y RHESWM |
|---|
| |

| UNRHYW WYBODAETH ARALL |
|---|
| Mae'r swydd hon dan Gyfyngiadau Gwleidyddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd fod yn wleidyddol ddiduedd.<br><br>Disgwylir i'r holl weithwyr gynnal gwerthoedd craidd yr Awdurdod a glynu wrth egwyddorion Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod neu, os cânt eu cyflogi mewn ysgol, Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr ysgol, fel sy'n briodol i lefel atebolrwydd a chyfrifoldeb y swydd yn y sefydliad. |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Hysbyseb Swydd Ddrafft: Cyfarwyddwr Lle**

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n cynnwys tirweddau amrywiol gan gynnwys ardaloedd trefol a gwledig, parciau gwledig ac amgylcheddau arfordirol hanesyddol ac mae ein Cyngor yn awdurdod lleol sy'n perfformio'n dda, yn fywiog ac yn flaengar sy'n ceisio gwella'n gyson, ac sydd wedi ymrwymo i gynnal ei enw da rhagorol am ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf. Rydym bellach yn awyddus i benodi Cyfarwyddwr Lle i'n helpu i gyflawni ein huchelgais.

Mae'r Cyfarwyddwr Lle yn gyfle gwych i ymuno â Chyngor blaengar sy'n edrych i fod yn arloesol yn y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion newidiol preswylwyr. Byddwch yn arweinydd arloesol a chynhwysol sy'n creu amgylchedd cadarnhaol oedd creadigrwydd a gwaith tîm yn ffynnu a lle gall unigolion a thimau gyflawni eu potensial.

Yn y rôl hanfodol hon, byddwch yn arwain ac yn gosod y cyfeiriad ar gyfer ein strategaethau Gwasanaethau Amgylcheddol, Cynllunio, Priffyrdd, Trafnidiaeth, Eiddo a Gwastraff yn ogystal ag arwain a chyfrannu at newid yn yr hinsawdd ac agendâu carbon sero-net.

**Ai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd hon?**

Os oes gennych gryn egni a chymhelliant, a bod gennych hanes profedig o arweinyddiaeth a rheolaeth strategol lwyddiannus o fewn sefydliad amlswyddogaethol o gwmpas a chymhlethdod tebyg, efallai mai dyma'r cyfle rydych wedi bod yn chwilio amdano. Yn ogystal, byddwch yn gwybod sut olwg sydd ar wasanaethau o'r radd flaenaf, a byddwch yn gwybod sut i gefnogi ac ysgogi eich staff i gyflawni'r safonau hyn mewn amgylchedd heriol.

**Am drafodaeth anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â Wendy Walters, Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin ar 01267 224110**

Am becyn cais ewch i: www.carmarthenshire.gov.uk

Dyddiad cau: I'w gadarnhau

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol